Cylchlythyr Egin Newsletter : Haf / Summer 2023

Croeso i gylchlythyr Haf 2023 Egin! Yn y cylchlythyr hwn, ein nod yw rhoi syniad bach i chi o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd hyd yn hyn, dangos rhai adnoddau defnyddiol i chi, a siarad dipyn am ein digwyddiadau sydd wedi bod ac sydd i ddod.

Welcome to the Egin summer newsletter 2023! In this newsletter, we aim to give you an idea of what's been happening so far, to highlight some useful resources for you, and to share a bit about our previous and upcoming events.

Dewch i siarad gyda ni! / Come and talk to us!

Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod

Bydd posib i chi ddal Egin eleni yn Y Sioe Frenhinol ar y 25ain a'r 26ain o fis Gorffennaf, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan rhywbryd rhwng y 5ed

The Royal Welsh and the Eisteddfod

It will be possible to catch Egin this year at the Royal Welsh show in Builth Wells on the 25th and 26th of July, and in the National Eisteddfod in Boduan

a'r 12fed o Awst (dyddiau i'w cadarnhau - mwy o wybodaeth yn nes i'r amser!). Dewch i gael sgwrs ac am y cyfle i ennill gwobr!

sometime between the 5th and 12th of August (exact dates will be confirmed later). Come to have a chat and get the chance to win a prize!

Profi, Arbrofi a Gwella / Proving and Improving

Cafodd ein pecyn cymorth Monitro a Gwerthuso "Profi, Arbrofi a Gwella", wedi ei gydgynhyrchu gyda Lab Cydgynhyrchu Cymru, ei gyhoeddi ar y 25ain o Fai.

Our Monitoring and Evaluation toolkit "Proving and Improving", co-produced with the Co-production Lab for Wales, was released on the 25th of May.

Mesur be' sy'n bwysig

Darllennwch ein blog am pam ei fod o'n bwysig i fesur effaith eich prosiect, a lawrlwythwch ein pecyn cymorth Profi, Arbrofi a Gwella am ddim: https://egin.org.uk/mesur effaith/?lang=cy

Measuring what matters

Read our blog post about why it's important to measure the impact of your project, and download the Proving and Improving toolkit for free: https://egin.org.uk/measur eimpact/

Darllen mwy / read more

Blogiau gan Egin / Blogs from Egin

Cyfle i ddal i fyny / A chance to catch up!

Gweithredu Hinsawdd Gymunedol

Be' ydy o yn union?

Community Climate Action

What is it exactly?

Yr economi gylchol

Sut mae'n edrych yng Nghymru, a be' 'di'r cysylltiad i newid hinsawdd?

The circular economy

What does it look like in Wales, and what's the connection with climate change?

Pwy fydd yn dioddef effeithiau newid hinsawdd waethaf yng Nghymru?

Bydd newid hinsawdd yn effeithio ni i gyd. Ond ni fydd pob cymuned yn teimlo'r un effaith. Dros y byd, gallwn weld mai'r gwledydd sydd wedi gwneud y lleiaf i gyfrannu at newid hinsawdd sy'n debygol o ddioddef yr effeithiau gwaethaf.

Who will be most impacted by climate change in Wales?

We will all be affected by climate change. However, not all communities will be equally impacted. Globally, we can see that the countries that have done the least to contribute towards climate change are likely to suffer the worst impacts. Within countries, this is true, too..

Be' sy'n digwydd / What's happening

Woody's Lodge, Penlan

Mae ein prosiectau Egin wedi dechrau!

Mae Woody's Lodge, Penlan yn elusen sy'n cefnogi cyn-filwyr ac aelodau o'r gwasanaethau argyfwng a'u teuluoedd, gyda rhwydwaith o safleoedd ledled Cymru. Ar safle Woody's Lodge yn Sir Gaerfyrddin, mae ganddyn nhw 11 erw o goed aeddfed, gerddi a phorfa. Maent yn cynnig ystod o weithgareddau i gefnogi eu haelodau. Cysyllton nhw ag Egin ynglŷn â chynlluniau ar gyfer safle rhandiroedd, prosiect tyfu bwyd a busnes sudd afal.

Gan ddefnyddio eu profiad o weithio gyda phrosiectau garddwriaethol eraill, siaradodd y Mentoriaid Cymheiriaid Cathryn a Louise am wahanol opsiynau gyda staff Woody; defnyddiau tir posibl, microhinsoddau

Our Egin projects have begun!

Woody's Lodge, Penlan are a charity supporting veterans and members of the emergency services and their families, with a network of sites across Wales. At the Woody's Lodge site in Carmarthenshire, they have 11 acres of mature trees, gardens and pasture. They offer a range of activities to support their members. They got in touch with Egin about plans for an allotment site, a food growing project and an apple juicing business.

Using their experience from working with other horticultural projects, Peer Mentors Cathryn and Louise talked through different options with Woody's staff; potential land uses,

ecolegol, cyfleoedd ariannu, a meithrin brwdfrydedd.

“Rwy’n gobeithio y bydd creu cysylltiadau trwy nodau cyffredin fel plannu coed a thyfu bwyd yn helpu i feithrin gwydnwch mewn unigolion a chymunedau,” meddai’r Mentor Cymheiriaid Cathryn Wyatt.

Trefnodd Richard Rose, cydlynydd y grŵp, y digwyddiad plannu coed cyntaf ym is Ebrill i gynyddu diddordeb yn y mentrau. Mae yna doiledau compost symudol ar y gweill, a thwnnel polythen gyda gwelyau. Darfanfyddwch fwy am Woody's Lodge Penlan ar eu gwefan!

ecological microclimates, funding opportunities, building enthusiasm.

“I hope that making links through common goals such as tree planting and growing food will help build resilience in both individuals and communities,” says Peer Mentor Cathryn Wyatt.

Richard Rose, the group's coordinator organised his first tree planting event in April to build interest in the initiatives. There are mobile compost loos in the pipeline, and a polytunnel with beds. Find out more about Woody's Lodge Penal on their website.

Gweminar - yr Economi Gylchol / Webinar - the Circular Economy

Ar y 14ain o Fehefin, cafon ni ein gweminar Dysgu a Rhannu Egin gyntaf! / On the 14th of June, we had our first Egin Learning and Sharing webinar!

Yn y gweminar hwn, buom yn edrych ar y syniad o’r **Economi Gylchol a sut y gallai fod yng**

In this webinar, we looked at the idea of the **Circular Economy**

Nghymru. Roedd ein siaradwyr yn trafod beth mae'r Economi Gylchol yn ei olygu mewn gwirionedd, sut olwg sydd arni ar lawr gwlad, a pha heriau y gallem eu hwynebu. Ymunodd Katie Beverley o Gymunedau Arloesedd yr Economi Gylchol (CEIC: www.ceicwales.org.uk) â ni, yn ogystal â dwy o Fentoriaid Cymheiriaid Egin: Janine Cusworth o Resource (https://www.resourcewales.com/) a Becky Lythgoe, a siaradodd am ei hamser yn Greenstream Flooring CIC. Roedd 24 o bobl yn bresennol o amrywiaeth o gynghorau, cymdeithasau a sefydliadau ledled Cymru.

Gallwch chi ddal recordiad o'r siaradwyr yma neu ddarllen am y weminar ar ein blog.

Bydd ein gweminar nesaf rhwng **2-3:30pm ar y 21ain o Fedi**, a'r pwnc fydd Gweithredu Hinsawdd Gymunedol yng Nghymru. Cawn glywed gan rai o'n Mentoriaid Cymheiriaid am brosiectau y maent wedi bod yn rhan ohonynt sy'n dod â'r syniad o weithredu cymunedol ar yr hinsawdd yn fyw. Bydd ystafelloedd 'breakout' hefyd i chi gael sgwrio a chyfarfod eich gilydd. Darllennwch fwy a cofrestrwch yma!

and what it might look like in Wales. Our speakers discussed what the Circular Economy actually means, what it looks like on the ground, and what challenges we might face. We were joined by Katie Beverley from the Circular Economy Innovation Communities (CEIC: www.ceicwales.org.uk), as well as two Egin Peer Mentors: Janine Cusworth from Resource (https://www.resourcewales.com/) and Becky Lythgoe, who talked about her time at Greenstream Flooring CIC. We had 24 people in attendance from a variety of councils, associations and organisations across Wales.

You can catch a recording of the speakers here or read about the webinar on our blog.

Our next webinar will be **2-3:30pm on September 21st,** will the topic **Community Climate Action in Wales.** We'll get to hear from a few of our Peer Mentors about projects they've been part of that bring the idea of community climate action to life. As well as a chance to learn, our webinars offer networking time in breakout rooms so you can share and get to know each other. Read more and sign up here!

Dilynwch ni / Follow us:

Ydych chi wedi ymuno â Chymuned Ar-lein Egin? Rhwydwaith cymdeithasol ar-lein ydy o, am ddim, lle gallwch gael eich ysbrydoli gan ddarganfod beth arall sy'n digwydd o amgylch Cymru, trafod problemau ac atebion gyda grwpiau cymunedol eraill, a chwrdd â phobl yn eich ardal. Mae'n agored i unrhyw un yng Nghymru sy'n gweithio ym maes hinsawdd a chynaliadwyedd, neu gyda diddordeb mewn dechrau.

Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu dwy dudalen Adnoddau at y Gymuned a allai fod yn ddefnyddiol:

Ariannu a Marchnata - sut i godi arian ac ymwybyddiaeth ar gyfer eich prosiect;

Adnoddau newid hinsawdd - popeth o ddeall sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar eich cymuned i adnoddau ar gyfer delio â phryder hinsawdd.

Cymuned Ar-Lein Egin

Have you joined the Egin Online Community? It's a free online social network, where you can be inspired by finding out what else is happening around Wales, discuss problems and solutions with other community groups, and meet like-minded people in your area. It's open to anyone in Wales working in or interested in getting involved with climate and sustainability.

We have recently added two Resource pages to the Community that may be useful:

Funding and Marketing - how to raise money and awareness for your project;

Climate change resources- everything from understanding how climate change will impact your community to resources for how to deal with climate anxiety.

Egin Online Community

Am CYD Cymru

Mae Egin yn raglen sy'n cael ei rhedeg gan Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD Cymru/DTA Wales), sefydliad aelodaeth annibynnol sy'n seiliedig ar ymarferwyr sy'n hyrwyddo gwaith a

About DTA Wales:

Egin is run by DTA Wales (Development Trusts Association), an independent practitioner based membership organisation promoting the work of and supporting the

chefnogi'r rhwydwaith cynyddol o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru.

Ein Gweledigaeth yw un o gymunedau ffyniannus a chydnerth ledled Cymru, lleoedd o bosibilrwydd lle gall pobl gymryd rheolaeth o'u bywydau, drwy fenter gymunedol, gweithredu cymdeithasol a pherchnogaeth asedau cymunedol.

Rydym yn recriwtio ar gyfer 4 swydd ar hyn o bryd (dyddiadau cau 7 a 13 Gorffennaf) - darllennwch fwy a gwnewch gais yma

growing network of development trusts in Wales.

Our Vision is one of thriving and resilient communities across Wales, places of possibility where people can take control of their lives, through community enterprise, social action and community asset ownership.

We are currently hiring for four positions (closing date 7th and 13th July) - read more about them and apply here

Egin (CYD Cymru / DTA Wales)

17 West Bute Street,

Cardiff CF10 5EP

www.dtawales.org.uk

www.egin.org.uk

Rydych chi wedi derbyn yr e-bost hwn oherwydd i chi gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr trwy egin.org.uk. Gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd: / You received this email because you signed up for our newsletter through egin.org.uk. You can unsubscribe at any time:

Dad-danysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailerlite